

Cyfres Cynllunio: 6 - Apeliadau

Hysbysiad Hwylus

Mai 2011

Ar ba sail y mae modd gwneud apêl cynllunio?

Caiff ymgeiswyr apelio ar sawl sail. Mae'r rhain yn cynnwys lle mae Awdurdod Cynllunio Lleol wedi:

- Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio;
- Rhoi caniatâd cynllunio ond wedi gosod amodau arno;
- Wedi methu â phenderfynu ar gais o fewn yr amser penodedig; a
- Wedi gofyn am ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad am gais cynllunio amlinellol.

Mae hefyd yn bosibl apelio yn erbyn penderfyniad gorfodi.

Nid oes gan bersonau eraill sydd â diddordeb (a elwir yn drydydd partïon) yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad cynllunio.

Ar y cyfan, rhaid cyflwyno apeliadau o fewn chwe mis i'r weithred sy'n cael ei herio.

Rhaid i apêl gael ei gwneud ar seiliau cynllunio dilys. Yr ystyriaeth bwysicaf un fydd i ba raddau y mae'r cynnig datblygu yn gweddu i gynllun datblygu'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac unrhyw bolisiâu cynllunio cenedlaethol perthnasol.¹ Bydd yr Arolygydd yn dod i benderfyniad ar apêl ar sail ei rinweddau cynllunio. Mae'n annhebygol y bydd amgylchiadau personol ymgeisydd yn gorbwyso unrhyw ystyriaeth gynllunio sylweddol.

Fel arfer, telir y costau gan yr apelydd a'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, caiff y naill ochr neu'r llall ofyn bod eu costau'n cael eu talu gan yr ochr sy'n gwrthwynebu os oes modd dangos bod ymddygiad afresymol wedi digwydd.

Os yw pwyllgor cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gwrthod cais, a hynny yn groes i gyngor y swyddog, mae'n rhaid iddo roi rhesymau. Os na ellir dangos rhesymau dilys dros y penderfyniad, gallai'r penderfyniad gael ei wyrddroi ar apêl, a'r costau'n cael eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod.

¹ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **Hysbysiad hwylus: Caniatâd Cynllunio**

At bwy y gwneir apêl?

Fel arfer, **Arolygiaeth Gynllunio Cymru** fydd yn ymdrin ag apeliadau a wneir yn erbyn penderfyniadau cynllunio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.² Mae'r Arolygiaeth yn un o asiantaethau Llywodraeth Cymru a'i phrif waith yw prosesu apeliadau cynllunio a gorfodi a chynnal ymchwiliadau i Gynlluniau Datblygu Lleol.

Mae'n bosibl i Lywodraeth Cymru 'adfer' apêl yr ymdrinnir â hi gan yr Arolygiaeth a chymryd y cyfrifoldeb o wneud penderfyniad yn ei chylch. Bydd y pwerau hyn fel arfer yn cael eu cadw ar gyfer apeliadau sy'n ymdrin â chynlluniau datblygu mawr fel datblygiadau tai neu ddatblygiadau manwerthu mawr.

Mae'n bosibl i Lywodraeth Cymru "alw cais cynllunio i mewn" gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn y penderfynir arno. Mewn achosion felly, caiff cais cynllunio ei ystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn yr un modd ag apêl gynllunio, gyda'r Gweinidog yn gwneud y penderfyniad terfynol.³

Mae **tair gweithdrefn statudol** y gellir gwrando ar apeliadau fel rhan ohonynt: y weithdrefn ysgrifenedig, gwrandawriad cyhoeddus ac ymchwiliad cyhoeddus.

Beth yw'r weithdrefn ysgrifenedig?

Dyma'r dull cyflymaf, a defnyddir y dull hwn ar gyfer oddeutu 75 y cant o apeliadau. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n penodi Arolygydd i glywed yr apêl ac yn pennu dyddiad dechrau. Cyflwynir gwybodaeth gefnogol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yr apelydd a chan y rhai sydd â diddordeb. Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r apelydd weld gwybodaeth y naill a'r llall, ond nid oes cyfle i groesholi. Yna bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle. Mae amserlen reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol bod pob gwybodaeth yn cael ei chyflwyno o fewn naw wythnos i'r dyddiad dechrau.⁴

Beth yw gwrandawriad cyhoeddus?

Os nad yw'r naill ochr neu'r llall am ddefnyddio'r weithdrefn ysgrifenedig, bydd gwrandawriad cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n penderfynu a fydd gwrandawriad neu ymchwiliad yn digwydd. Mae gwrandawriad yn drafodaeth agored dan arweiniad yr Arolygydd ac mae'n tueddu i gael ei ddefnyddio ar gyfer apeliadau sy'n gymharol syml a heb fod yn ddadleuol. Cyn y gwrandawriad, bydd gwybodaeth gefnogol yn cael ei chyfnewid a bydd sylwadau'n cael eu rhoi arni fel sy'n digwydd gyda'r weithdrefn ysgrifenedig.

Yn y gwrandawriad, bydd yr Arolygydd yn arwain trafodaeth anffurfiol ar y prif faterion o dan sylw a chynhelir ymweliad â'r safle fel arfer. Mae'r amserlen reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i wrandawriad ddigwydd o fewn 12 wythnos i'r dyddiad dechrau.⁵

² **Gwefan Arolygiaeth Gynllunio Cymru**

³ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **Hysbysiad hwylus: Galw ceisiadau cynllunio i mewn**

⁴ *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Apeliadau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (OS Rhif 390)* (fel y'i diwygiwyd)

⁵ *Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gwrandawriadau) (Cymru) 2003 (OS Rhif 1271)* (fel y'i diwygiwyd)

Beth yw ymchwiliad cyhoeddus?

Os nad yw'r naill ochr neu'r llall am ddefnyddio'r weithdrefn ysgrifenedig, a bod yr Arolygiaeth Gynllunio'n penderfynu bod gwrandawriad cyhoeddus yn anaddas, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal. Mae mwy o dueddiad i ddefnyddio ymchwiliadau ar gyfer cynlluniau mwy sylweddol a chymhleth. Cyn ymchwiliad, bydd gwybodaeth gefnogol yn cael ei chyfnwid a bydd sylwadau'n cael eu rhoi arni fel sy'n digwydd gyda'r weithdrefn ysgrifenedig.

Bydd y canlynol yn cael eu cyflwyno hefyd:

- Datganiadau ysgrifenedig sydd i gael eu darllen yn uchel yn yr ymchwiliad. Gall yr ochr arall edrych arnynt; a
- Datganiad man canol, yn amlinellu unrhyw feysydd y mae'r ddwy ochr yn cytuno arnynt, fel maint y safle dan sylw.

Bydd dyddiad a lleoliad yr ymchwiliad yn cael ei hysbysebu a'r Arolygydd yn ymweld â safle'r apêl cyn yr ymchwiliad. Caiff pob ochr ddefnyddio cynrychiolydd cyfreithiol. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn cyflwyno ei achos yn gyntaf fel arfer, ac yna bydd yn galw tystion. Yna gall yr Arolygydd a'r apelydd ofyn cwestiynau. Wedyn bydd yr apelydd yn cyflwyno'i achos, ac yn galw tystion, cyn cael ei gwestiynu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Arolygydd. Bydd pawb arall sydd â diddordeb fel arfer yn cael cyfle i fynegi eu barn. Mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn caniatáu i'r personau hyn gael eu holi, ac i holi'r apelydd a/neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae gan y ddwy brif ochr yn yr apêl yr hawl i wneud datganiad cloi. Mae amserlen reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol bod yr ymchwiliad yn digwydd o fewn 20 wythnos o'r dyddiad dechrau ar gyfer ymchwiliadau a benderfynir gan Arolygydd.⁶

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol?

Waeth beth yw'r weithdrefn a gaiff ei dilyn, bydd yr Arolygydd yn ystyried y dystiolaeth cyn penderfynu "caniatáu" neu "ddiystyru" yr apêl. Yr unig eithriadau i hyn yw apeliadau ar gyfer cynlluniau mawr, pan fydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu ymyrryd yn uniongyrchol (a elwir yn "apeliadau a adferwyd") ac y gwneir penderfyniad arnynt, wedyn, gan Weinidogion Cymru. Mewn achosion felly, bydd yr Arolygydd yn ystyried yr achos ac yn gwneud argymhelliad, er nad oes raid i'r Gweinidog dderbyn yr argymhelliad hwn.

Mewn apêl yn erbyn amodau a gaiff eu gosod ar ganiatad cynllunio, gall yr Arolygydd amrywio'r amodau a osodir gan Awdurdod Cynllunio Lleol neu osod amodau newydd. Caiff penderfyniad terfynol yr Arolygydd ei gofnodi mewn llythyr. Bydd hyn yn esbonio beth oedd y rhesymau dros y penderfyniad ac yn gwyrddroi'r penderfyniad gwreiddiol a wnaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae penderfyniad yr Arolygydd yn derfynol, a dim ond yn yr Uchel Lys ar bwynt o gyfraith y gellir ei herio (mewn "adolygiad barnwrol").

A oes unrhyw hawl pellach i apelio?

Pan fo penderfyniad wedi'i wneud gan Arolygydd neu Weinidogion Cymru, dim ond yn yr Uchel Lys y mae modd herio penderfyniad yr apêl. Rhaid i her o'r fath gael ei nodi o fewn chwe wythnos i'r penderfyniad. Er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, rhaid gallu dangos bod yr Arolygydd wedi gweithredu y tu hwnt i'w bwerau, neu nad yw wedi dilyn y gweithdrefnau priodol.

⁶ Rheolau Apeliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003 (OS Rhif 1267) (fel y'i diwygiwyd)

Os caiff y penderfyniad ei wyrdroi, bydd yr apêl yn cael ei hanfon yn ôl i'r Arolygiaeth Gynllunio i gael ei hailystyried.

Rhagor o wybodaeth

Y Porth Cynllunio

Mae gwefan y **Porth Cynllunio** yn rhoi manylion llawn am y broses apelio.

Arolygiaeth Gynllunio Cymru

Mae gwbyodaeth am sut i apelio a chynnydd apeliadau hefyd ar gael ar wefan **Arolygiaeth Gynllunio Cymru**

Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn darparu gwbyodaeth sy'n cynnwys:

- **Polisi Cynllunio Cymru:** prif ddatganiad polisi cynllunio yng Nghymru; a
- **Cylchlythyr 07/2003: Gweithdrefnau ar gyfer Apeliadau Cynllunio (ac Apeliadau Tebyg) a Galw Ceisiadau i Mewn.**

Cymorth Cynllunio Cymru

Mae **Cymorth Cynllunio Cymru** yn sefydliad elusenol sy'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gyfrannu'n fwy effeithiol at y system gynllunio. Mae'n darparu gwasanaethau cynghori gan gynnwys llinell gymorth.

Hysbysiadau hwylus eraill gan y Gwasanaeth Ymchwil sy'n ymwneud â chynllunio:

- **Polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru;**
- **Polisi cynllunio lleol yng Nghymru;**
- **Datblygiadau nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt;**
- **Caniatâd cynllunio;**
- **Galw ceisiadau cynllunio i mewn**
- **Gorfodi;**
- **Offer telathrebu**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: assemblywales.org/research

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at Research.Service@wales.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

Ymholiad rhif: 11/0269

Graham Winter